

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu o'r enw Clyw fy Nghân: Ymchwiliad i'r Diwydiant Cerddoriaeth Fyw.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 31 o argymhellion a geir ynddo.

Argymhelliad 1

Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gefnogi cerddoriaeth fyw mewn ffordd sy'n gwella mynediad daearyddol ledled Cymru. Mae cerddoriaeth yn clymu cymunedau gyda'i gilydd, o bentrefi bach i wledydd. Dylai cyfleoedd i wneud a gwrando ar gerddoriaeth fod ar gael ledled y wlad.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cymru Greadigol yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol ledled Cymru i gefnogi cerddoriaeth fyw.

Un o'r meysydd sydd wedi derbyn y cymorth mwyaf gennym hyd yma yw lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad, sydd wrth wraidd mynediad i gerddoriaeth fyw yng Nghymru. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi rhoi cymorth i 22 o leoliadau drwy ein Cronfa Lleoliadau Cerddoriaeth ar Lawr Gwlad. Yn ogystal, darparodd y Gronfa Adfer Diwylliannol gymorth o £3.3m ar gyfer 38 o leoliadau cerddoriaeth fyw.

Mae Grŵp Rhanddeiliaid Cerddoriaeth Cymru Greadigol yn cynnwys cynrychiolwyr a gwaith ymgysylltu sy'n cynrychioli pob rhan o Gymru.

Rydym eisoes yn gweithio yng Nghymru gyfan gyda nifer o fentrau ac rydym wedi darparu cyllid o £60,000 ar gyfer prosiect y Bannau i annog hynny ac adroddiad Tan Cymru i ddeall anghenion amrywiol artistiaid nad ydynt yn wyn yn well. Rhoddwyd cymorth i leoliadau a stiwdios yng Nghymru gyfan ac mae'r cymorth i artistiaid (Momentum, Spotify) wedi cynnwys amrywiaeth o artistiaid yn unol â dwyseddu poblogaeth.

Mae Cronfa Gerddoriaeth Momentum yn enghraifft arall o gyllid sydd ar gael i gefnogi datblygiad cerddorion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cydweithio â Sefydliad PRS, PPL a Spotify i gynnig grantiau i artistiaid neu fandiau talentog Cymru sy'n ceisio dringo i'r lefel nesaf.

Rydym yn bwriadu datblygu cronfa datblygu cerddoriaeth i gynorthwyo prosiectau sy'n ceisio hybu dyfodol cynaliadwy i'r sector.

Goblygiadau ariannol: Dim. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol oherwydd y bydd y gwaith o ddatblygu'r gronfa yn cael ei wneud drwy gyllidebau presennol y cytunwyd arnynt ar gyfer Cymru Greadigol.

Argymhelliad 2

Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod data penodol Cymru ar gael ar faint y diwydiant cerddoriaeth a'i is-sectorau amrywiol. Dylai'r data hwn fod yn sail i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gerddoriaeth.

Ymateb: Derbyn

Erbyn diwedd 2021/22 bydd Cymru Greadigol wedi datblygu cynllun gweithredu tair blynedd i gefnogi'r Sector Cerddoriaeth Fasnachol yng Nghymru. I wneud hyn, bydd y diwydiant yn cael ei fapio ymhellach a bydd gwaith ymchwil manylach yn cael ei wneud.

Mae'n rhaid i dîm Cymru Greadigol ganolbwyntio dros y 12 mis nesaf ar gefnogi'r diwydiant i adfer o bandemig COVID-19. Ochr yn ochr â hyn, bydd gwaith casglu data ac ymchwil yn cael ei wneud i ddeall ymhellach pa fesurau sydd angen eu rhoi ar waith i ddatblygu a thyfu diwydiant cynaliadwy yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau ei hymarfer mapio lleoliadau a chynnal ymarfer mapio lleoliadau a chyfleusterau cerdd eraill (megis manau ymarfer a pherfformio cyhoeddus) yn rheolaidd. Dylid diweddarau hwn i ymateb i ddatblygiadau newydd.

Ymateb: Gwrthod

Roedd cwmpas yr ymarfer mapio lleoliadau yn gyfyngedig. Fe'i cynhaliwyd i lywio'r gwaith cychwynnol o ddatblygu polisi ac ni fyddai'n ychwanegu unrhyw werth i gyhoeddi'r gwaith. Bydd gwaith mapio ychwanegol yn cael ei wneud fel rhan o waith datblygu'r cynllun gweithredu a chaiff ei gyhoeddi a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Bydd y gwaith hwn yn ehangach na lleoliadau a bydd yn cynnwys manau ymarfer a stiwdios recordio.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 4

Dylai cyllidwyr cyhoeddus deilwra'r gefnogaeth y maent yn ei darparu i'r diwydiant i annog pobl i ddarparu rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg mewn gigs Saesneg yn bennaf. Dylai Cymru Greadigol weithio i ddod â gwahanol gymunedau iaith a genre ynghyd i annog cydweithredu.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod gwerth y Gymraeg mewn cerddoriaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi artistiaid Cymraeg a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fentrau ariannu penodol fel Momentum ac yn denu sylw drwy restr chwarae Spotify Cymru Greadigol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Dydd Miwsig Cymru yn flynyddol sy'n denu cynulleidfaoedd o bob cefndir ieithyddol.

Yn ogystal, rydym wedi rhoi cyllid i PYST a'r llwyfan AM newydd. Mae'r ddau hyn wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo a chefnogi artistiaid a chynulleidfaoedd Cymraeg.

Cytunwn fod gan gyllidwyr cyhoeddus gyfrifoldeb i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'n hiaith. Ac er ein bod yn parchu annibyniaeth olygyddol a churadurol y rhai rydym yn eu hariannu, byddwn yn annog yr holl sefydliadau a grwpiau perthnasol i gynnwys cerddoriaeth Gymraeg yn eu darpariaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 5

Dylai Cymru Greadigol weithio gyda lleoliadau cerddoriaeth mawr i ystyried sut y gallant ddefnyddio gwerthiant tocynnau i godi incwm ar gyfer mentrau i ehangu mynediad at gerddoriaeth. Un ffordd o wneud hyn fyddai trwy roi'r opsiwn i gwsmeriaid dalgrynnu prisiau tocynnau i'r bunt agosaf wrth brynu tocynnau, gyda'r gwaged yn cael ei ddarparu i elusennau priodol.

Ymateb: Gwrthod

Mater masnachol ar gyfer lleoliadau unigol yw hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill, ddatblygu strategaeth gerddoriaeth. Dylai hyn gynnwys dull a brand clir ar gyfer cyflwyno cerddoriaeth o Gymru y tu allan i Gymru.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cymru Greadigol yn datblygu "Cynllun Gweithredu" Cymru gyfan yn hytrach na "Strategaeth" ar gyfer y Diwydiant Cerddoriaeth Fasnachol yng Nghymru. Bydd yn adlewyrchu'r angen am gamau gweithredu tymor byr i gynorthwyo'r sector adfer o'r pandemig COVID-19 a chynlluniau tymor hwy er mwyn datblygu'r sector ar gyfer dyfodol cynaliadwy, mewn marchnad fyd-eang.

Mae pandemig COVID-19 wedi atal y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn rhag cael ei wneud yn gynharach. Ond mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Cerddoriaeth eisoes wedi'i ffurfio gyda'r bwriad o gynnig cyngor a syniadau a thynnu sylw at faterion sy'n flaenoriaeth i'r sector Cerddoriaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'r grŵp rhanddeiliaid hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth helpu Llywodraeth Cymru i ddeall sut y mae'r pandemig yn effeithio ar fusnesau a sut y gallwn gefnogi'r diwydiant yn well i adfer a thyfu.

Byddwn yn datblygu dull o gefnogi'r brand yn rhyngwladol drwy'r cynllun gweithredu.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 7

Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwell cymorth a chynngor ar gael i'r diwydiant cerddoriaeth, boed hynny trwy Cymru Creadigol neu sefydlu corff newydd. Mae angen i'r cymorth hwn fod ar gael ledled Cymru ac ar lawr gwlad, lle mae angen ymyrraeth fwyaf.

Ymateb: Derbyn

Sefydlwyd Cymru Greadigol yn benodol i sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar lwyddiant presennol, datblygu talent a sgiliau newydd a sicrhau bod Cymru yn arwain y gad fel un o'r lleoedd gorau i fusnesau creadigol ffynnu. Cerddoriaeth yw un o'r sectorau blaenoriaeth allweddol ar gyfer Cymru Greadigol a byddwn yn parhau i gefnogi'r sector i dyfu. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y ffordd orau y gallwn wella'n uniongyrchol y cymorth sydd ar gael i'r diwydiant a dyma fydd un o flaenoriaethau allweddol ein cynllun busnes ar gyfer 2021/22. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i sicrhau bod unrhyw fylchau mewn cymorth yn cael eu nodi'n gyflym a, lle y bo'n bosibl, nodi atebion.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 8

Dylai bwrdd cynghori Cymru Greadigol gynnwys arbenigwyr y diwydiant a phobl ifanc fel y gall gefnogi'r sector yn effeithiol ac ystyried anghenion artistiaid a chynulleidfaoedd ifanc.

Ymateb: Derbyn

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Anweithredol Cymru Greadigol yn ddiweddar gydag aelodau wedi'u penodi am gyfnod o dair blynedd. Rydym yn cydnabod nad oes cynrychiolydd o'r diwydiant cerddoriaeth ar y bwrdd ac mae hyn yn rhannol oherwydd y ceisiadau a ddaeth i law. Fodd bynnag, mae gan Catryn Ramasut, y Cadeirydd, wybodaeth sylweddol am y diwydiant. Mae gan y bwrdd yr opsiwn i sicrhau cymorth ychwanegol o'r diwydiant i drafod rhai materion, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, drwy ein Grŵp Rhanddeiliaid Cerddoriaeth a'n rhwydwaith rhanddeiliaid cynyddol, rydym yn hyderus ein bod yn cael digon o sgysiau gydag ystod amrywiol o bobl i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y sector.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa gyfalaf i hwyluso'r gwaith o brynu lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad ac iddynt werth diwylliannol a chymdeithasol uchel. Gallai awdurdodau lleol neu grwpiau buddiant ei defnyddio i'w helpu i brynu lleoliadau sydd dan fygythiad. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried atebion amgen a fyddai'n cael effaith debyg, fel rhentu adeiladau a'u his-osod i weithredwyr lleoliadau.

Ymateb: Gwrthod

Blaenoriaeth Cymru Greadigol yw cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru a bydd cymorth yn canolbwyntio ar y prosiectau hynny a fydd yn sbarduno twf economaidd. Fodd bynnag, nid oes gennym y gyllideb gyfalaf ar gyfer y math hwn o weithgaredd ac rydym yn teimlo ei bod yn well gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau'n cael eu diogelu. Nid yw Llywodraeth Cymru yn dymuno bod yn berchen ar leoliadau.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 10

Mae llawer o adeiladau – gan gynnwys canolfannau celfyddydau – y tu allan i ardaloedd trefol yn derbyn cyllid cyhoeddus, naill ai gan awdurdodau lleol neu asiantaethau fel Cyngor

y Celfyddydau. Dylai darparwyr cyllid ystyried atodi amodau i'r cyllid hwn bod y lleoedd hyn, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu hagor fel lleoedd ymarfer i gerddorion.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi ac yn monitro lleoliadau ym Mhortffolio Celfyddydau Cymru. Byddant yn parhau i sicrhau eu bod yn chwarae rôl flaengar a galluogol fel canolbwynt creadigol i'w cymuned, a gallai darparu gofod ymarfer fod yn rhan o hynny.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 11

Dylai cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw – fel yr hyn oedd ar gael yn flaenorol trwy Brosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc yn ne Cymru – fod ar gael dros Gymru gyfan a dylai gynnwys proffesiynau fel rheolwyr, hyrwyddwyr ac asiantau. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru roi ystyriaeth ddwys i ariannu sefydliad o'r fath ledled y wlad yn ystod ei adolygiad buddsoddi.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu'r llif o dalent gerddorol a sicrhau ei bod yn haws i bobl ddawnus ddatblygu gyrfaoedd hirdymor yn y diwydiant cerddoriaeth.

Bydd ein cefnogaeth benodol i'r sector cerddoriaeth yng Nghymru yn adeiladu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma. Ymysg y rhain mae Momentum, FORTE, PYST a noddi'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig a'r gwyliau sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau.

Byddwn yn mabwysiadu ffocws cyfannol, gydag ymyriadau wedi'u hanelu at yr holl ecosystem gerddorol yng Nghymru, yn cynnwys lleoliadau, artistiaid, hyrwyddwyr a dosbarthwyr.

Byddwn yn cydweithio'n agos â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid er mwyn nodi'r camau gweithredu allweddol sy'n ofynnol i gefnogi'r sector yn y ffordd orau. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymateb ar wahân.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 12

Dylid ehangu'r rhaglen Gorwelion fel bod artistiaid yn cael mwy o gyngor a chymorth datblygu gyrfa i'w helpu i fynd â'u gyrfaoedd i'r lefel nesaf.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Mae Gorwelion yn bartneriaeth ar gyfer artistiaid rhwng BBC a Chyngor Celfyddydau Cymru. Dylai ganolbwyntio ar ehangu mynediad i'r artistiaid hynny yng Nghymru drwy holl sianelau BBC Cymru / BBC Radio Cymru a chyfleoedd mewn digwyddiadau cysylltiedig.

Fodd bynnag, mae Cymru Greadigol yn agored i ymchwilio i gyfleoedd yn y dyfodol i gefnogi'r rhaglen fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar gyda phrosiect wythnos Cerddoriaeth Lleoliadau Annibynnol.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 13

Dylid dysgu cerddoriaeth mewn ysgolion mewn ffordd sy'n cydnabod gwerth llawn cerddoriaeth gyfoes. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ystod eang o genres, gan gynnwys cerddoriaeth boblogaidd gyfoes a cherddoriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, yn cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad i bob genre cerddorol, fel y gallant ddysgu a chael eu hysbrydoli gan y gerddoriaeth y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddi. Un o agweddau sylfaenol y Cwricwlwm newydd i Gymru yw nad yw'n rhagnodol ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion deilwra'r ddarpariaeth ar gyfer eu dysgwyr ac yn ôl anghenion ac amgylchiadau lleol. Yn y cyd-destun hwn, gall y cwricwlwm newydd gefnogi addysgu mathau o gerddoriaeth y gellir eu hystyried yn llai 'traddodiadol', gan gynnwys y genres a nodir yn yr argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 14

Dylid sefydlu byrddau cerddoriaeth ledled Cymru i ddarparu rhyngwyneb rhwng awdurdodau lleol a'r diwydiant cerddoriaeth. Dylai'r rhain chwarae rhan weithredol yng ngwaith yr awdurdodau lleol i ddatblygu polisïau sy'n effeithio ar y diwydiant cerddoriaeth, gan gynnwys cynllunio, trwyddedu, ardrethi busnes, diogelwch personol a thrafnidiaeth.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'n cael ei ystyried yn ymarferol disgwyl i bob awdurdod lleol sefydlu Byrddau Cerddoriaeth. Mae pob cymuned yng Nghymru yn wahanol ac efallai y bydd atebion eraill mwy ymarferol y gall awdurdodau lleol eu rhoi ar waith i gefnogi eu diwydiant cerddoriaeth. Fodd bynnag, bydd Cymru Greadigol yn gweithio gyda Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd (a sefydlwyd) ac yn ei gynnwys wrth rannu enghreifftiau o arferion gorau, gydag unrhyw awdurdod lleol sy'n dymuno sefydlu bwrdd cerddoriaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Music Venues Trust i adolygu effeithiolrwydd yr egwyddor cynllunio cyfrwng newid. Os canfyddir tystiolaeth sylweddol bod datblygiadau newydd yn effeithio'n andwyol ar leoliadau cerddoriaeth presennol, dylai gryfhau polisïau i warchod lleoliadau presennol, gan gynnwys ystyried defnyddio hawddfreintiau sŵn, fel yr argymhellwyd gan UK Music a'r Music Venues Trust.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cymru Greadigol yn parhau i weithio'n agos gyda'r Music Venues Trust a chydweithwyr cynllunio ac adfywio i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 16

Dylai cynlluniau datblygu awdurdodau lleol nodi manau lle gall gweithgarwch diwylliannol ddigwydd mewn datblygiadau newydd yn yr un ffordd ag y maent yn ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau eraill.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Mater i awdurdodau lleol yw hwn a bydd gan bob ardal ofynion gwahanol. Fodd bynnag, bydd Cymru Greadigol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n parhau i fod yn awyddus i gynorthwyo prosiectau arloesol lle y bo'n bosibl.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 17

Dylai awdurdodau trwyddedu:

- weithio gyda lleoliadau bach i gytuno ar amodau trwyddedu cymesur, i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol
- gweithio gyda lleoliadau i'w gwneud hi'n haws iddyn nhw gynnal sioeau pob oed;
- gweithio gyda lleoliadau dibynadwy i roi mwy o fewnbwn iddynt wrth bennu gofynion diogelwch priodol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Gweithredwyr lleoliadau yw'r arbenigwyr, a dylai awdurdodau trwyddedu roi mwy o bwys ar eu barn ar ba ofynion diogelwch y mae eu hangen i greu amgylchedd diogel.

Ymateb: Derbyn

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni all Cymru Greadigol orfodi'r argymhellion hyn, ond gallwn annog lleoliadau ac awdurdodau trwyddedu i gydweithio'n agosach.

Mae Cymru Greadigol yn awyddus i gefnogi mynediad i gigs cerddoriaeth fyw ar gyfer cynulleidfa mor amrywiol â phosibl, gan ein bod yn cydnabod yr effaith gadarnhaol enfawr y mae gweithgarwch diwylliannol yn ei chael ar les unigolion.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 18

Dylai awdurdodau trwyddedu a'r heddlu weithio gyda'r diwydiant - trwy fyrddau cerddoriaeth os sefydlir y rhain – i wella eu gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth er mwyn osgoi'r risg o broffilio hiliol mewn penderfyniadau trwyddedu.

Ymateb: Derbyn

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwbl gefnogol i unrhyw drafodaethau sy'n ceisio cynyddu amrywiaeth a hyrwyddo ymwybyddiaeth o gynhwysiant ledled y sector Creadigol. Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Cerddoriaeth a'r holl bartneriaid perthnasol gyda'r bwriad o ddylanwadu ar benderfyniadau trwyddedu tecach.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 19

Dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ymchwilio i'r amodau trwyddedu sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i asesu i ba raddau, os o gwbl, y maent yn cael eu dylanwadu gan ragfarn ddjarwybod ar sail hil. Os canfyddir unrhyw ragfarn, dylai'r heddlu roi camau ar waith i'w atal.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwbl gefnogol i unrhyw drafodaethau neu gamau gweithredu sy'n ceisio cynyddu amrywiaeth a hyrwyddo ymwybyddiaeth o gynhwysiant. Byddwn yn cysylltu â phartneriaid perthnasol i gynorthwyo trafodaethau pellach gyda'r bwriad o ddileu unrhyw ragfarn bosibl.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 20

Dylai lleoliadau cerddoriaeth fyw barhau i dderbyn rhyddhad ardrethi busnes i helpu iddynt adfer o'r pandemig. Dylai unrhyw olynydd tymor hir i gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ac Ardrethi Manwerthu fod yn glir bod lleoliadau cerddoriaeth fyw yn fusnesau cymwys.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn ymwybodol o'r effaith estynedig y mae COVID-19 yn ei chael ar y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r sector hwn y tu hwnt i fis Mawrth 2021.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data yn rheolaidd – a'i rannu â'r Pwyllgor – ynghylch faint o leoliadau sy'n cael y rhyddhad ardrethi hwn fel y gall asesu a yw'r polisi hwn yn effeithiol wrth helpu'r sector cerddoriaeth fyw.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cymru Greadigol yn ymestyn ei galluoedd ymchwil i ddarparu gwybodaeth mor fanwl â phosibl am y diwydiant cerddoriaeth fasnachol gan gynnwys faint o leoliadau sy'n cael rhyddhad ardrethi. Rydym yn cydnabod manteision cael yr wybodaeth fwyaf manwl ac eang â phosibl er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gweithredu a monitro a mesur effeithiolrwydd y cynlluniau hynny.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 22

Dylid defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ostwng cyfraddau busnes ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth yn Lloegr i ddarparu rhyddhad ardrethi cyfatebol ar gyfer lleoliadau yng Nghymru. Ni ddylai lleoliadau yng Nghymru wynebu biliau ardrethi busnes uwch na lleoliadau yn Lloegr.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn fel egwyddor sylfaenol. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi busnes newydd yn y dyfodol, yn debyg i 2020-21, yna cawn arian canlyniadol Barnett. Byddwn yn cysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau bod anghenion y lleoliadau cerddoriaeth yng Nghymru yn cael eu hystyried yn llawn.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 23

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu map ffordd clir ar gyfer ailgychwyn gweithgarwch byw. Dylai edrych yn greadigol ar opsiynau fel gigs sy'n cadw pellter cymdeithasol ac awyr agored, a fyddai, er nad yn fuddiol yn economaidd efallai, yn cynnig gweithgaredd diwylliannol sydd mawr ei angen. Dylai'r cynllun hwn gynnwys digwyddiadau diwylliannol eraill, megis theatr a dawns, yn ogystal â cherddoriaeth fyw.

Ymateb: Derbyn

Mae Cymru Greadigol yn cydnabod bod hon yn flaenoriaeth allweddol yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22. Er bod y lefelau rhybudd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn rhoi rhywfaint o eglurder ynghylch cyfyngiadau a chanllawiau, rydym yn ymwybodol y gallai cynaliadwyedd lleoliadau byw gael ei beryglu gan faint y cyfyngiadau hyd yn oed ar y lefelau haen is. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Swyddogion Iechyd y Cyhoedd i sicrhau bod gofynion y diwydiant cerddoriaeth yn cael eu cynrychioli'n llawn pan wneir penderfyniadau.

Yn ystod COVID-19 rydym wedi parhau i ddod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo a denu sylw at artistiaid o Gymru. Mae cyflwyno rhestr fisol Spotify Cymru Greadigol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn hynny o beth. Casglwyd dros 300 o draciau gydag amrywiaeth eang o genres, rhaniad daeryddol a phresenoldeb Cymraeg cryf.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld a oes angen cefnogaeth ar y diwydiant i greu mwy o weithgarwch digidol, ac i gynnig canolbwynt canolog o gynnwys diwylliannol digidol Cymru.

Ymateb: Derbyn

Datgelodd y Gronfa Adfer Diwylliannol fod angen cymorth ar y diwydiant cerddoriaeth mewn nifer o feysydd busnes sylfaenol – gellir ychwanegu gweithgarwch digidol at hynny. Fodd

bynag, mae'r tîm Cerddoriaeth eisoes yn gweithio gyda chydweithwyr Marchnata a Chyfathrebu i fapio digwyddiadau 2021 a chyfleoedd i gasglu asedau ar gyfer creu cynnwys.

Mae Cymru Greadigol wedi bod yn allweddol wrth ddarparu cefnogaeth i blatfform ar-lein AM Pyst sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth hyrwyddo'r Sector Diwylliannol yn fyd-eang drwy gydol y pandemig.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 25

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant yswiriant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod yswiriant addas ar gael i alluogi trefnwyr digwyddiadau mawr i reoli'r risgiau o drefnu digwyddiadau yn 2021.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ynghylch amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y sector. Maent wedi cadarnhau bod hwn yn un o nifer o faterion sy'n cael eu hystyried. Fodd bynnag, er y cydnabyddir bod hwn yn fater arwyddocaol, mae rhwystrau ehangach eraill sy'n effeithio ar hyn o bryd ar y tebygolrwydd y bydd unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cynnal eleni. Os byddwn mewn sefyllfa i ddigwyddiadau fynd rhagddynt, byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU i ddarparu canllawiau clir i'r diwydiant gyda mesurau lliniaru manwl.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 26

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau lletygarwch presennol, dylai naill ai peidio ag ailgyflwyno'r cyrffyw 10pm, neu ddarparu tystiolaeth fod hynny'n effeithiol wrth leihau trosglwyddiad y feirws.

Ymateb: Derbyn

Mae Cymru Greadigol yn sylweddoli bod y mater hwn yn rhwystr mawr i alluogi lleoliadau byw i agor ar sail gynaliadwy. Fodd bynnag, cyngor SAGE yw'r ffactor amlycaf wrth bennu'r cyfyngiadau sydd eu hangen ar unrhyw adeg. Er hynny, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion y diwydiant cerddoriaeth yn cael eu cynrychioli wrth i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ynglŷn â'r Sector Creadigol yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 27

Lle mae lleoliadau cerddoriaeth fyw wedi colli incwm o ganlyniad i gyfyngiadau lletygarwch cyfredol Llywodraeth Cymru, dylent fod yn gymwys i gael yr arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno i gyd-fynd â'r cyfyngiadau hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Cymru Greadigol, drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol, eisoes wedi gwneud y gwaith gweinyddol er mwyn rhannu mwy na £3.3m i fusnesau cerddoriaeth ledled Cymru sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021.

Rydym yn deall y bydd y sefyllfa ar gyfer lleoliadau (a rhannau eraill o'r economi greadigol/diwylliannol) yn parhau'n anodd iawn ar ôl mis Mawrth. Mae'n edrych yn debygol y bydd capasiti'n cael ei leihau'n sylweddol yn y tymor byr i ganolig, hyd yn oed os gall lleoliadau agor. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer sut y gallem gefnogi'r sector ar ôl mis Mawrth 2021 ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon er mwyn asesu'r effaith a'r angen posibl am gyllid ychwanegol.

Goblygiadau ariannol: Wrth ddyrannu unrhyw gyllid newydd bydd ein dull gweithredu yn parhau i gael ei lywio drwy ymgysylltu â'r sector, tystiolaeth a fforddiadwyedd o fewn dyraniad y gyllideb, a chyllid ychwanegol posibl oddi wrth Lywodraeth y DU yn 2021-22.

Argymhelliad 28

Mae angen i Lywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, nodi pa gyllid fydd ar gael i'r sector cerddoriaeth fyw ar ôl mis Mawrth 2021.

Ymateb: Derbyn

Fel uchod. Rydym yn cydnabod bod y sector yn wynebu effaith negyddol hirdymor. O ganlyniad, mae Cymru Greadigol yn ystyried opsiynau cymorth tymor hwy o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Goblygiadau ariannol: Wrth ddyrannu unrhyw gyllid newydd bydd ein dull gweithredu yn parhau i gael ei lywio drwy ymgysylltu â'r sector, tystiolaeth a fforddiadwyedd o fewn dyraniad y gyllideb, a chyllid ychwanegol posibl oddi wrth Lywodraeth y DU yn 2021-22.

Argymhelliad 29

Mae angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod cyllid pellach ar gael i'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi'r sector diwylliant ar ôl mis Mawrth 2021, i gydnabod y diffyg parhaus o weithgarwch diwylliannol.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cymru Greadigol yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr yn yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon er mwyn hyrwyddo'r angen am gymorth hyblyg i'r Sector Diwylliannol yng Nghymru oroesi.

Goblygiadau ariannol: Wrth ddyrannu unrhyw gyllid newydd bydd ein dull gweithredu yn parhau i gael ei lywio drwy ymgysylltu â'r sector, tystiolaeth a fforddiadwyedd o fewn dyraniad y gyllideb, a chyllid ychwanegol posibl oddi wrth Lywodraeth y DU yn 2021-22.

Argymhelliad 30

Mae angen i Lywodraeth y DU naill ai ymestyn ei ffurfiau presennol ar gymorth cyflogaeth ar ôl mis Mawrth 2021, neu ddarparu eglurder ynghylch cynlluniau olynol.

Ymateb: Derbyn

Roedd y penderfyniad i ehangu'r Cynllun Cefnogi Swyddi, a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 9 Hydref, yn newyddion da i fusnesau a chyflogeion yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau lleol. Rydym wedi bod yn annog Gweinidogion Llywodraeth y DU i adolygu'r Cynllun Cefnogi Swyddi er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol a bod cynifer o weithwyr â phosibl yn cael budd ohono. Rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu at yr adolygiad o'r cynllun.

Rydym yn parhau i dynnu sylw at yr angen am gymorth i gyflogeion mewn cyfarfodydd â Llywodraeth y DU, gan gydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau sydd eu hangen i efelychu'r math hwn o ymyriad ar y raddfa hon.

Mae gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hyrwyddo cyngor, gwybodaeth a chynlluniau er mwyn helpu busnesau yn ystod pandemig COVID-19 drwy wefan Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy> a sianeli cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig, yn ogystal â thrwy Linell Gymorth Busnes Cymru a staff cynghori Busnes Cymru. Mae hyn wedi cynnwys cyfeirio at gynlluniau Llywodraeth y DU megis y Cynllun Cadw Swyddi.

Mae cyngor penodol ar gael i unigolion a busnesau, gan gynnwys cynllunio busnes, adolygiadau ac ailfodelu a help i gael cymorth ariannol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a datblygu modelau busnes newydd. At hynny, mae cyfres o weminarau byw wedi'u datblygu er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â chael cyllid, rheoli llif arian parod, gallu digidol ac arallgyfeirio, a rheoli newid i gyflogaeth.

Fodd bynnag, ynghyd â chydweithwyr yn yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, mae Cymru Greadigol yn cydnabod bod materion mwy wedi dod i'r amlwg yn fwy diweddar o ran symudedd masnach â'r UE. Cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hynny.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 31

Mae angen i Lywodraeth y DU ddarparu cefnogaeth ar frys i weithwyr llawrydd sydd wedi syrthio trwy fylchau'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig.

Ymateb: Derbyn

Cydnabu Llywodraeth Cymru anghenion y gymuned gweithwyr llawrydd a dyna pam y gwnaethom lansio'r gronfa gweithwyr llawrydd fel elfen o'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol gyffredinol. Cyfanswm nifer y gweithwyr llawrydd a gefnogwyd drwy'r tri cham cychwynnol oedd 3,548, sef cyfanswm o £8.9m. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r buddsoddiad, ond mae'n amlwg bod hyn wedi cael effaith ym mhob rhan o Gymru gan fod pob awdurdod lleol wedi cefnogi nifer o weithwyr llawrydd. Mae cymorth Llywodraeth Cymru i'r gymuned gweithwyr llawrydd hefyd wedi cael ei ystyried yn gadarnhaol ledled y DU, yn enwedig gan na chynigiwyd yr arian hwn yn Lloegr.

Mae'r gronfa wedi cael derbyniad da, ac erys yr achos dros fuddsoddi wrth i'r sectorau creadigol a diwylliannol barhau i fod ar gau. Mae sgysiau gyda'r gymuned gweithwyr llawrydd yn mynd rhagddynt yn gadarnhaol ac mae'r addewid gweithwyr llawrydd yn cael ei

ddatblygu. Mae cyfle sylweddol i'r gronfa arwain at berthynas newydd rhwng y sector cyhoeddus a gweithwyr llawrydd creadigol a diwylliannol, sy'n cael ei ystyried yn esiampl gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar hyn o bryd rydym yn archwilio opsiynau i gefnogi'r gymuned gweithwyr llawrydd eto, gyda'r uchelgais i wneud hynny cyn diwedd mis Mawrth 2021.

Goblygiadau ariannol: Dim

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon